



Newsletter

Greener Aberystwyth Group

www.aber-gag.org.uk

No. 12 March 2013

Editor: Laurie Wright

Aberystwyth's green gateway



A tree-lined avenue will welcome visitors to Aberystwyth thanks to Welsh Government Regeneration Area funding. The Coed Aber project, a collaboration between Forestry Commission Wales, Ceredigion County Council and the Greener Aberystwyth Group, involves planting over 300 trees along Boulevard St Brieuc, one of the key entry roads bringing people into the town.

The vision began with GAG members walking the length of the Approach Rd looking at the feasibility of tree planting and possible sites. This was taken up by Dafydd Fryer FCW who produced the document "Greening Aberystwyth's Approach Road"

The total project cost will be £375,000, spread over three years, and will entail planting in grassy areas, pavements and soil beds.

GAG welcomes this initiative with open arms: "Our group was set up to promote the development and conservation of green spaces in the Aberystwyth area. We see them as valuable amenities for the residents themselves and anyone visiting the area. This exciting development has the potential to transform the targeted area into a tree lined avenue welcoming people to the town."

Planting is a balance of large (probably native) species where space and ground conditions allow with smaller species (smaller canopy or columnar shape) or shrubs where space is limited. Sample trenches have been dug to test ground conditions and due care is being paid (with surveys e.g. for water voles) to areas of wild life significance.

Trefor Owen, Director of Forestry Commission Wales, believes the benefits are significant, "Many consider the benefits of such developments as being simply environmental but they are much greater. There are proven benefits for people to exercise and enjoy a safe, welcoming high quality local environment. From an economic perspective it can attract more visitors and tourists as well as promote investment by the business sector."

Cllr Alun Williams, Ceredigion Council Cabinet Member with responsibility for Carbon Management and a member of the Aberystwyth Regeneration Partnership Board added, "As a council we are always looking for ways to integrate transport planning, the environment and economic development. This is a shining example of what can be achieved by thinking in an integrated way. When finished,

the scheme will give the kind of boost to the entranceway to Aberystwyth that many people have been asking for and I am very much looking forward to seeing the end result."

The work will commence shortly with the aim of completing the project by 2015.

Trees to be felled in Cemetery



Following the loss of a Holm Oak in a storm on Oct 15 (reported in GAG Newsletter 11), a tree survey has been carried out on the safety of the line of trees between the Cemetery and Plas Crug Avenue. This recommends felling several Holm Oaks and a Corsican Pine for safety reasons.

Nant Plas Crug



GAG welcomes the dredging of Nant Plas Crug which is now being carried out. Though looking bare at present, wildlife that may have been disturbed will soon re-colonise. The improved flow will reduce the risk of flooding and ultimately benefit the wildlife.

Tree Lecture

The Ceredigion branch of the Welsh Historic Gardens Trust invites everyone interested to an illustrated lecture by photographer and tree enthusiast Archie Miles on Saturday 9 March at 2.30 pm in Waun Fawr Community Hall, Aberystwyth.

There will be an opportunity to buy his newly-published book, and an exhibition of work by the WHGT. Fee for non-members £1.00. Tea and biscuits will be served.

Cylchlythyr



Rhifyn 12 Mawrth 2013

Golygydd: Laurie Wright

Grŵp Aberystwyth Gwyrddach

www.abergag.org.uk

Mynedfa werdd i Aberystwyth



Bydd lôn goed yn croesawu ymwelwyr i Aberystwyth, ac mae'n diolch i arian Ardal Adfywio gan Lywodraeth Cymru. Trwy gynllun Coed Aber (project ar y cyd rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Grŵp Aberystwyth Gwyrddach) bydd dros 300 o goed yn cael eu plannu ar hyd Boulevard St Briec, un o'r prif ffyrdd fewn i'r dref.

Dechreuodd y freuddwyd pan gerddodd aelodau GAG ar hyd y ffordd i weld lle fyddai'n bosibl i blannu coed. Datblygwyd y syniad gan Dafydd Fryer o'r Comisiwn Coedwigaeth, sy'n gyfrifol am y ddogfen "Greening Aberystwyth's Approach Road"

Bydd y cyfan yn costio £375,000 dros dair blynedd. Bydd y coed yn cael eu plannu mewn manau gwyrdd, palmentydd a gwelyau pridd.

Croesawir y project yn frwd gan Grŵp Aberystwyth Gwyrddach: "Sefydliwyd ein grŵp i hyrwyddo datblygu a chadw manau gwyrdd yn ardal Aberystwyth. Rydym yn eu gweld fel mwynderau gwerthfawr i drigolion ac ymwelwyr. Mae'r datblygiad cyffrous hwn yn gallu trawsnewid y ffordd yn goedlan fydd yn croesawu pobl i'r dref. "

Dewisir y planhigion yn ofalus: coed mawr (brodorol, mwy na thebyg) lle bydd y safle a'r tir yn eu caniatáu, coed llai (culach neu siâp colofnog) neu lwyni lle mae'r safle yn gyfyng. Cloddiwyd ffosydd i brofi cyflwr y tir, ac mae gofal mawr (e.e. trwy arolygon am lygod y dŵr) mewn ardaloedd lle mae bywyd gwyllt yn bwysig.

Mae Trefor Owen, Cyfarwyddwr Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn credu y bydd manteision sylweddol: "Mae llawer o bobl yn credu mai dim ond i'r amgylchedd y bydd datblygiadau fel hyn yn llesol, ond mae'r manteision yn llawer mwy. Profwyd y manteision pan mae pobl yn gallu cael ymarfer a mwynhau amgylchedd o safon sy'n ddiogel a dymunol. Ar ran yr economi leol, mae'n gallu denu mwy o ymwelwyr a thwristiaid, yn ogystal â hyrwyddo buddsoddiad gan y sector busnes."

Ychwanegodd y Cynghorydd Alun Williams, sy'n aelod o Gabinet Cyngor Ceredigion gyda chyfrifoldeb am Reoli Carbon, ac sydd hefyd yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Adfywio Aberystwyth: "Fel cyngor, rydym yn chwilio am ffyrdd o integreiddio cynllunio trafniadaeth, yr amgylchedd a datblygu'r economi leol. Dyma esiampl wych o feddwl mewn ffordd integredig. Fe fydd y cynllun y rhoi hwb i'r

fyndfa i Aberystwyth. Mae llawer o bobl wedi gofyn am hyn. Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr iawn at weld y canlyniad."

Bydd y gwaith yn dechrau yn fuan gyda'r bwriad o gwblhau'r project erbyn 2015.

Coed i'w torri yn y fynwent



Yn dilyn cwmp Derwen Fytholwyrdd mewn storom ar 15 Hydref (gw. Cylchlythyr GAG 11), gwnaed arolwg ar y rhes o goed rhwng y fynwent a Choedlan Plas Crug. Argymhellir torri pinwydden Corsica a sawl Derwen Fytholwyrdd am resymau diogelwch.

Nant Plas Crug



Mae GAG yn croesawu'r gwaith carthu sy'n cael ei wneud yn Nant Plas Crug. Er bod golwg llwm ar y nant ar hyn o bryd, bydd y bywyd gwyllt, y bu'r gwaith yn tarfu arno, yn ail-gartrefu yn fuan. Bydd gwell llif yn y nant yn lleihau'r perygl o lifogydd, ac yn y pendraw yn helpu'r bywyd gwyllt.

Darlith am Goed

Mae cangen Ceredigion o'r Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru yn eich gwahodd i ddarlith gyda sleidiau gan y ffotograffydd Archie Miles, sy'n frwd dros goed, ar ddydd Sadwrn 9 Mawrth am 2.30 yn Neuadd Gymunedol Waun Fawr, Aberystwyth.

Bydd cyfle i brynu ei lyfr newydd, a gweld arddangosfa o waith yr Ymddiriedolaeth. Bydd tâl o £1 i bawb sy'n ddi-aelod. Fe weinyddir te a bisgedi.